# CABINET

Cofnodion cyfarfod o’r Cabinet a gynhaliwyd yn Conference Room 1a, County Hall, Ruthin, Dydd Mawrth, 4 Medi 2012 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant; Hugh Irving, Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Chymunedau; Huw Jones, Aelod Arweiniol dros Dwristiaeth, Hamdden ac Ieuenctid; Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad; David Smith, Aelod Arweiniol dros Dir y Cyhoedd; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau ac Eryl Williams, Aelod Arweiniol dros Addysg.
Sylwedyddion: Y Cynghorwyr J.R. Bartley, R.J. Davies ac C. Hughes.

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr; Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Cwsmeriaid; Moderneiddio a Lles; Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, Pennaeth Cyllid ac Asedau, Rheolwr Tîm Gwelliant Corfforaethol, Rheolwr Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen a Swyddog Gweinyddol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd E.W. Williams at y canlyniadau arholiad llwyddiannus a gyflawnwyd gan ddisgyblion yn ysgolion Sir Ddinbych. Diolchodd i’r swyddogion Addysg am y gwaith a wnaethpwyd a chadarnhaodd fod llythyrau o longyfarchion wedi eu hanfon at Brifathrawon a Chyrff Llywodraethol yr ysgolion priodol. Cyfeiriodd y Cynghorydd Williams hefyd at y llwyddiant a gyflawnwyd gan ysgolion lleol yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Gofynnodd yr Arweinydd ac Aelodau’r Cabinet am i lythyrau o longyfarchion gael eu hanfon gan y Cabinet at yr ysgolion a’u Cyrff Llywodraethol i gydnabod eu llwyddiant.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN BUDDIANNAU

Gofynnwyd i Aelodau fynegi unrhyw fuddiannau personol neu fuddiannau sy’n rhagfarnu unrhyw fusnes i’w drafod yn y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD –*** *bod y Cabinet yn nodi na Ddatganwyd unrhyw Fuddiannau.*

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

Esboniodd y Cynghorydd B.A. Smith bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi data Dangosyddion Strategol Cenedlaethol 2011/12 i holl Gynghorau yng Nghymru a ddefnyddiwyd i fesur perfformiad Awdurdodau Lleol ar lefel cenedlaethol. O’r 24

dangosydd, roedd Sir Ddinbych wedi perfformio yn hanner uchaf Cynghorau Cymru yn 75% ac yn chwarter uchaf Cynghorau Cymru i ddeuran o dair o'r dangosyddion. Yn nhermau'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol, Sir Ddinbych oedd y Cyngor uchaf ei berfformiad yng Nghymru. Esboniodd mai dyma'r dyhead oedd wedi'i nodi yn y Cynllun Corfforaethol 2009/12 a bod cadarnhad annibynnol o hyn wedi'i ddarparu. Amlinellodd y Cynghorydd Smith nifer o'r uchafbwyntiau a chyfeiriodd hefyd at yr adroddiad a gyhoeddwyd gan Uned Ddata Llywodraeth Leol a oedd yn dynodi gwelliant cyffredinol ym mherfformiad Cynghorau yng Nghymru llynedd.

Cadarnhaodd yr Arweinydd bod yna ymrwymiad yn yr Awdurdod gan Aelodau a swyddogion, gyda phrosesau da ar waith. Fodd bynnag, cadarnhaodd bod yna wastad le i wella. Cefnogodd Aelodau awgrym y Cynghorydd E.W. Williams y dylid anfon llythyr i Aelodau'r Cyngor blaenorol yn cydnabod y gwaith a wnaethpwyd ganddynt a'u cyfraniad i'r llwyddiant a amlinellwyd.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar Ddydd Mawrth, 17 Gorffennaf, 2012.

Cywirdeb:- y Cynghorydd J. Thompson-Hill i'w gynnwys yn enwau'r Aelodau oedd yn bresennol. Cadarnhawyd ei fod wedi'i gofnodi'n bresennol yn fersiwn Gymraeg y cofnodion.

Materion yn codi:-

7. Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych. Adroddiad Diweddaru - rhoddodd y Cynghorydd D.I Smith ddiweddariad o'r gwaith a'r costau ynghlwm wrth y safle. Esboniodd bod Cyfrwng Penodol wedi'i sefydlu'n ffurfiol. Byddai Hysbysiad Atgyweirio yn cael ei gyflwyno i'r perchnogion a fyddai'n agor y ffordd at lunio Gorchymyn Prynu Gorfodol pe byddai angen un. Roedd y perchennog wedi hysbysu Sir Ddinbych bod cynrychiolwyr cyfreithiol wedi'u cyfarwyddo i ymgyfreithio yn erbyn yr Awdurdod.

***PENDERFYNWYD –*** *yn amodol ar yr uchod, bod Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Ddydd Mawrth, 17 Gorffennaf 2012 yn cael eu derbyn fel cofnod cywir ac yn cael eu llofnodi gan yr Arweinydd.*

## 5 ADRODDIAD O DDIWEDDARIAD ARIANNOL

Cyflwynodd y Cynghorydd J. Thompson Hill yr adroddiad i'r Cabinet a oedd yn amlinellu cyllideb refeniw y Cyngor a'i arbedion ar gyfer 2012/13. Rhoddodd grynodeb fanwl o'r adroddiad a oedd yn cynnwys y Cynllun Cyfalaf, y Cyfrif Refeniw Tai, a'r Cynllun Cyfalaf Tai, nododd beth oedd ffurf y cyllidebau a nododd hefyd y strwythur adrodd nôl i'r flwyddyn sydd i ddod. Cadarnhaodd nad oedd ar hyn o bryd unrhyw wyriadau sylweddol o'r strategaeth gyllideb y cytunwyd arni ar gyfer 2012/13 fel y'i diffiniwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, y Cynllun Cyfalaf a Chynllun Busnes y Stoc Tai.

Mae'r rhagolygon mwyaf diweddar o'r gyllideb refeniw, Atodiad 1, yn dangos gorwariant bach ar draws holl wasanaethau, gan gynnwys ysgolion a chyllidebau corfforaethol. Roedd hefyd yn cynnwys crynodeb o'r Cyfrif Refeniw er gwybodaeth; fodd bynnag, dyma gronfa ar wahân nad yw'n rhan o gyllideb refeniw'r Cyngor. Mae Atodiad 2 yn rhoi diweddariad yn dangos cynnydd yn erbyn yr arbedion a'r pwysau y cytunwyd arnynt fel rhan o'r broses gosod y gyllideb. Cytunwyd ar gyfanswm arbedion net o £3.443m ac roedd £1.774m wedi'i gyflawni gyda £1.669m ar y gweill. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at amrywiannau allweddol o'r gyllideb neu dargedau arbedion, risgiau neu arbedion potensial ychwanegol allai godi drwy'r flwyddyn, ac yn darparu diweddariad mwy cyffredinol ar y Cynllun Cyfalaf a'r Cyfrif Refeniw Tai.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r sefyllfa o ran y Gyllideb Refeniw a rhoddodd y swyddogion grynodeb mewn perthynas â'r canlynol: Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden, Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio, Gwasanaethau Oedolion, Gwasanaethau'r Amgylchedd, cyllidebau Moderneiddio Addysg a Gofal Cwsmeriaid ac Ysgolion. O ran y Cynllun Cyfalaf, roedd yr alldro oedd wedi'i amcangyfrif yn £3.8m ar ddiwedd Gorffennaf yn erbyn Cynllun y cytunwyd arno o £37.3m.  Roedd atodiad 3 yn crynhoi'r cynllun presennol, a sut ddylid ei ariannu, ac roedd Atodiad 4 yn darparu trosolwg o brosiectau cyfalaf mawr.

Cyfeiriwyd yn arbennig at Gyfathrebu, Marchnata a Hamdden ac esboniwyd bod y gyllideb i Ganolfan Plant Integredig Rhyl, Canolfan Oaktree wedi bod dan bwysau ar ôl colli £80k o arian grant. Er bod y gwasanaeth yn gweithredu i leihau gorwariant, roedd yn debygol y byddai'r cyfleuster yn gorwario o £40k a chytunwyd y byddai hyn yn cael ei ariannu'n gorfforaethol y flwyddyn ariannol hon.  Byddai pwysau ar flynyddoedd i'r dyfodol yn cael sylw yn y broses herio gwasanaeth a gosod y gyllideb.

Roedd rhagolygon diweddaraf y Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai wedi'u crynhoi yn yr adroddiad, ynghyd â'r Sylwebaeth Economaidd a Diweddariad Rheolaeth y Trysorlys. Esboniwyd y byddai hwn yn gyfnod ariannol heriol i'r Cyngor, ac y byddai methu â chyflawni strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni yn rhoi pwysau pellach ar wasanaethau yn y flwyddyn ariannol hon ac yn y dyfodol. Hysbyswyd aelodau y byddai monitro a rheoli cyllideb effeithiol ynghyd ag adrodd yn fuan ar unrhyw amrywiannau yn helpu sicrhau bod y strategaeth ariannol yn cael ei gwireddu.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Feeley at elfen ariannu prosiectau Harbwr y Foryd ac Amddiffyn Arfordir Rhyl  a'r angen posibl i ddefnyddio arian wrth gefn. Esboniodd y Cynghorydd Thompson-Hill bod elfennau risg fel arfer yn fwy amlwg yn ystod camau cynnar prosiectau o'r fath, ac y byddent yn lleihau'n sylweddol wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Esboniodd y Prif Weithredwr y byddai adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Prosiect yn ddiweddarach yn y dydd.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd  D.I. Smith ynghylch sefyllfa'r Honey Club, a'r diffyg cynnydd mewn perthynas â'r cais a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru am ganiatâd ardal gadwraeth i ddymchwel yr adeilad, a oedd bellach mewn cyflwr ansefydlog ac o bosibl yn anniogel. Amlinellwyd manylion o'r opsiynau a'r

canlyniadau amrywiol, a chadarnhawyd y byddai'n drosedd dymchwel yr adeilad heb ganiatad priodol. Fodd bynnag, roedd holl gamau posibl wedi'u cymryd i liniaru'r holl risgiau, ac roedd ceisiadau pellach wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn gofyn am y caniatâd priodol i ddymchwel yr adeilad. Cytunodd Aelodau y dylid cyflwyno adroddiad gwybodaeth yn amlinellu'r cynnydd mewn perthynas â'r Honey Club i'r Cabinet.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Arweinydd, rhoddodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau fanylion o'r amserlenni a'r agenda dan sylw i ymdrin â materion yn ymwneud â'r Cynllun Cyfalaf, a'r arbedion potensial o'r Rhaglen Gydweithio.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD –*** *bod y Cabinet:-*

*(a) yn nodi'r cyllidebau a'r targedau arbedion i'r flwyddyn a'r cynnydd a wnaed yn erbyn strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni, ac*
*(b) yn derbyn adroddiad gwybodaeth ar y sefyllfa a'r cynnydd mewn perthynas â'r Honey Club.*

## 6 PROSIECT CEFNOGI TEULU AMDDIFFYN PLANT – ADRODDIAD EITHRIO CYTUNDEB

Cyflwynodd y Cynghorydd Feeley yr adroddiad a oedd yn manylu ar Brosiect Cefnogi Teulu Amddiffyn Plant y Tîm Cefnogi Teulu a ariannwyd gan Cefnogi Pobl, gan geisio cymeradwyaeth i eithrio'r cytundeb o'r angen i dendro.

Roedd y Prosiect Cefnogi Teulu Amddiffyn Plant yn cefnogi teuluoedd sy'n derbyn gwasanaethau statudol ym meysydd amddiffyn plant a phlant mewn angen, teuluoedd y canfuwyd eu bod mewn argyfwng ac arnynt angen gwasanaethau statudol o'r fath ar frys; mae'n darparu cefnogaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal Cyngor Sir Ddinbych lle'r oedd dyletswydd statudol i barhau â gofal yn bodoli.

Rhoddwyd manylion ynghylch gweithrediad y prosiect gan y Tîm Cefnogi Teulu. Esboniwyd bod y cysylltiad rhwng swyddogaethau Amddiffyn Plant statudol Gwasanaethau Cymdeithasol a rhai'r prosiect yn hanfodol i sicrhau bod y prosiect yn gweithredu'n llwyddiannus. Roedd teimlad mai'r darparwr mewnol presennol fyddai'n gallu cynnal y cyswllt orau, a'i bod yn hynod o annhebygol y byddai unrhyw ddarparwr allanol yn gallu sefydlu'r cysylltiadau hynny i lefel boddhaol i sicrhau parhad yn narpariaeth y gwasanaeth.

Roedd amlinelliad o'r goblygiadau cost wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. £356,782.22 fyddai gwerth blynyddol y cytundeb am 3 blynedd, gydag opsiwn i ymestyn am 2 flynedd arall yn seiliedig ar berfformiad a deilliannau. Byddai'r dyraniad cyllid dros 5 mlynedd yn £1,783,911.12. Yn unol ag arfer orau, ac mewn ymgynghoriad gyda'r Uned Caffael Strategol, nid oedd unrhyw achos eithriadol dros allanoli neu gontractio'r prosiect allan.

Hysbyswyd aelodau y byddai'r prosiect yn darparu cefnogaeth i:-

- Deuluoedd sy'n agored i niwed i gael mynediad at ymyriad cefnogaeth teulu sydd wedi'i gydgysylltu.
- Plant a Phobl Ifanc gyda datblygiadau ôl-16.
- Unigolion a theuluoedd i gael mynediad at addysg a chyfleoedd hyfforddi.
- Unigolion a theuluoedd sy'n agored i niwed i gael gafael ar gymorth ataliol.
- Pobl sydd angen tai a byddai'n cyfrannu at fynd i'r afael â materion fel byrhoedledd a thlodi.
- Defnyddwyr gwasanaeth wrth ymdrin â phroblemau amddifadedd lluosog gan gynnwys amddifadedd ac anghenion tai.

Esboniwyd y byddai'r prosiect hefyd yn chwarae rôl allweddol wrth gyfrannu at rwystro digartrefedd i grwpiau sy'n agored i niwed.

Wrth ystyried y risgiau posibl sy'n gysylltiedig gyda rhoi'r prosiect allan i dendr, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, cyfeiriwyd at y gost a'r tarfu potensial pe na fyddai'r systemau gweinyddu a diogelu mewnol bellach ar gael i ddarparwr y gwasanaeth. Tynnwyd sylw hefyd at bwysigrwydd strategol y prosiect i Wasanaethau Plant a Theuluoedd a'r cysylltiadau gwasanaeth sensitif a heriol gydag Amddiffyn Plant. Cadarnhawyd y gallai'r risgiau cysylltiedig â phenodi darparwr gwahanol effeithio'n uniongyrchol ar wasanaethau statudol gan fod y prosiect yn lliniaru pwysau ar Ddigartrefedd a gwasanaethau eraill trwy ddarparu cefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai.

Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Arweinydd ynghylch darparu sicrwydd ynglŷn â gwerth am arian, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles bod darpariaeth y gwasanaeth wedi bod yn destun tendro cystadleuol yn 2009.

***PENDERFYNWYD****:- bod y Cabinet yn cymeradwyo eithrio Prosiect Cefnogi Teulu Amddiffyn Plant y Tîm Cefnogi Teulu o'r angen i dendro.*

## 7 PROSIECT EFFEITHIOLRWYDD A GWELLA YSGOLION – SEFYDLU CYD-BWYLLGOR

Cyflwynodd y Cynghorydd E.W. Williams yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i Gylch Gorchwyl ac Aelodaeth y Cydbwyllgor. Esboniodd bod y Cabinet wedi cymeradwyo'r Achos Busnes Terfynol ar gyfer sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol ar draws chwe Awdurdod Gogledd Cymru, a'i fod wedi penderfynu ym Mawrth 2012:-

- I gefnogi a chymeradwyo'r Achos Busnes Terfynol ar gyfer sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol erbyn Ebrill 2013.
- I gefnogi argymhelliad Bwrdd Rhaglen Addysg Gogledd Cymru y dylid mabwysiadu Cydbwyllgor gydag Awdurdod Cynnal fel model llywodraethu.
- Roedd Grŵp Prif Weinyddwyr y chwe Awdurdod Lleol yn ddiweddarach wedi cymeradwyo Cyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Cynnal i'r Gwasanaeth Rhanbarthol.

Yn dilyn gwerthusiad manwl o'r opsiynau, argymhellwyd yn yr Achos Busnes Terfynol y dylid mabwysiadu model llywodraethu yn seiliedig ar Gydbwyllgor/Awdurdod Cynnal. Byddai Cytundeb Rhyng-Awdurdod yn sylfaen i'r Bartneriaeth, ac yn diffinio rolau a chyfrifoldebau'r Partneriaid, yr Awdurdod Cynnal a'r trefniadau llywodraethu. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion parthed cylch gorchwyl ac aelodaeth ffurfiol y Cydbwyllgor yn seiliedig ar yr Achos Busnes Terfynol a chyngor Cyfreithiol pellach.

Roedd strwythur aelodaeth bosibl y Cydbwyllgor wedi'i nodi yn yr Achos Busnes gyda chydnabyddiaeth bod angen mireinio pellach. Roedd yr Achos Busnes Llawn yn amlinellau cwmpas y gwasanaeth arfaethedig a swyddogaeth y Cydbwyllgor o fewn y strwythur a fyddai'n cael ei lywodraethu gan Reolau Gweithdrefn yr Awdurdod Cynnal. Roedd aelodaeth arfaethedig y Cydbwyllgor, a oedd yn adlewyrchu'r strwythur a amlinellwyd yn yr Achos Busnes Llawn, wedi'i gynnwys yn yr adroddiad. Roedd cyfyngiad cyfreithiol wedi'i gynnwys, sef na fyddai Aelodau Cyfetholedig y Cydbwyllgor yn cael pleidleisio ar benderfyniadau. Byddai angen pum aelod pleidleisio o'r Cydbwyllgor ar gyfer cworwm yng nghyfarfod y Cydbwyllgor, a byddai cytundeb ar gyfer caniatáu i ddirprwy fynychu pe byddai hynny'n angenrheidiol.

Byddai Grŵp Defnyddwyr Ysgolion a Llywodraethwyr RSEIS yn enwebu Cynrychiolydd Uwchradd, Cynradd, Arbennig a Llywodraethwr i gymryd eu seddau ar y Cydbwyllgor. Byddai'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod yn diffinio trefniadau llywodraethu'r Cydbwyllgor, gan gynnwys ei Gylch Gorchwyl a Phwerau Dirprwyedig.

Roedd Cylch Gorchwyl a Phwerau Dirprwyedig arfaethedig y Cydbwyllgor wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, ynghyd â materion wedi'u neilltuo'n arbennig ar gyfer penderfyniad Cabinet unigol. Roedd ymgynghoriadau manwl wedi'u cynnal gyda'r holl randdeiliaid yn ystod y gwaith o lunio'r Achos Busnes Llawn, ac roedd ymgynghoriadau manwl eraill hefyd wedi digwydd yn ddiweddarach gyda staff fyddai'n cael eu heffeithio gan y newidiadau. Roedd yr Adran Gyfreithiol wedi archwilio'r Cylch Gorchwyl ac oblygiadau ehangach yr adroddiad.

***PENDERFYNWYD****:- bod y Cabinet:-*

*(a) yn cadarnhau sefydliad y Cydbwyllgor yn unol â'r adroddiad.*
*(b) yn penodi'r Aelod Arweiniol dros Addysg i gynrychioli'r Awdurdod ar y Cydbwyllgor, ac*
*(c) yn cymeradwyo Cylch Gorchwyl a Swyddogaethau Dirprwyedig y Cydbwyllgor fel y'u nodir ym mharagraff 4 yr adroddiad.*

## 8 PROSIECT GWELLA TAI GORLLEWIN Y RHYL

Cyflwynodd y Cynghorydd H.H. Evans yr adroddiad a roddai fanylion ar Brosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl (WRHIP), a gyflwynwyd yn wreiddiol yn sesiwn briffio'r Cabinet ar 5 Rhagfyr 2011.

Roedd arian wedi'i ddyrannu gan Lywodraeth Cymru (LlC) i weithredu'r Prosiect, heb ddim gofyniad am arian cyfalaf o Sir Ddinbych. Roedd gofyn i'r Cabinet ystyried y prosiect yn unol gyda Rheoliadau Ariannol a Methodoleg Rheoli Prosiect.

Mae'r manylion canlynol yn ymwneud â'r WRHIP wedi'u darparu yn yr adroddiad:-

Atodiad 1 – Briff y Prosiect – Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl.
Atodiad 2 – Cynllun Bloc WRHIP.
Atodiad 3 – Argraff Arlunydd o Fan Gwyrdd.

Hysbyswyd Aelodau y dylai'r ffynhonnell arian mewn perthynas â WG-NWCRA am 2013/14 fod yn £1,647,000 ac nid £1,747,000 fel y nodwyd yn y tabl yn yr adroddiad.

Roedd y WRHIP yn barhad o waith a oedd eisoes ar y gweill yng Ngorllewin y Rhyl dan nawdd Ardal Adfywio Strategol Arfordir Gogledd Cymru (NWCRA) ac roedd nifer sylweddol o adeiladau oedd angen sylw'r prosiect eisoes wedi'u prynu gydag arian LlC. Roedd manylion ynghylch y Man Gwyrdd, y Rhaglen Gaffael, math o dai i'w creu, Rhaglen Weithredu, Rheoli Prosiect a Threfniadau Llywodraethu wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Roedd rhaglen amlinellol ar gyfer gweithredu blociau unigol wedi'i dosbarthu ac roedd Atodiad 4 yn cynnwys Cynllun Rhaglen WRHIP. Roedd Bwrdd Prosiect wedi'i sefydlu ac roedd y Cylch Gorchwyl drafft, gyda manylion aelodaeth, wedi'i gynnwys yn Atodiad 5. Dywedodd Rheolwr Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen wrth y Cabinet bod Canllawiau Cynllunio Atodol drafft wedi'u cynhyrchu i'r ardal, a allai ddarparu'r fframwaith polisi ar gyfer unrhyw ymholiad CPO posibl, ac y byddai'r Pwyllgor Cynllunio yn ystyried hyn gyda golwg ar ei anfon at ymgynghoriad ffurfiol.

Roedd cyfrifoldebau allweddol y Bwrdd WRHIP ar gyfer gweithredu'r prosiect wedi'u hamlygu yn yr adroddiad. Esboniwyd y byddai mynd i'r afael â materion sydd wedi poeni'r ardal ers amser yn helpu creu argraff fwy positif o'r dref, ac y byddai hynny wedyn yn arwain at fuddion adfywio mwy pellgyrhaeddol. Trwy greu cymuned a marchnad dai mwy cytbwys, byddai'r prosiect yn lleihau amddifadedd yn yr ardal, a dyma oedd un o ddeilliannau allweddol y flaenoriaeth. Byddai hefyd yn hybu hyder y sector preifat yn y Rhyl ac yn ysgogi buddsoddiad a hyder sector preifat pellach trwy greu swyddi newydd a chyfleoedd busnes.

Byddai'r prosiect yn cael effaith uniongyrchol ar y deilliant blaenoriaeth o "gynnig amrywiaeth o fathau a ffurfiau tai gwahanol... i gyflawni anghenion unigolion a theuluoedd". Roedd y costau a godwyd o Atodiad 1, Briff y Prosiect – Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl, wedi'u manylu yn yr adroddiad. Fodd bynnag, cadarnhawyd nad oedd arian ar gyfer 2014/15 wedi'i dderbyn o'r NWCRA hyd yma.

Roedd y tabl o fewn yr adroddiad yn dangos y byddai'r arian i'r WRHIP yn cael ei ddarparu gan LlC ac yn dod o gyfuniad o Gronfa Gyfalaf a Gedwir yn Ganolog ac arian o'r Ardal Adfywio Strategol Arfordir Gogledd Cymru (NWCRA). Roedd yr arian wedi'i neilltuo'n benodol i'r prosiect ac nid oedd i'w wario tu allan Y Rhyl nac ar brosiect gwahanol.

Darparwyd yr ymatebion canlynol i bryderon a fynegwyd a chwestiynau a godwyd:-

- Esboniodd Rheolwr Prosiect Y Rhyl yn Symud Ymlaen y byddai'r adeiladu newydd yn cael ei ddylunio a'i adeiladu i fod mor hyblyg â phosibl, felly byddai modd addasu llety i gyflawni gofynion bobl hŷn.

- Esboniwyd nad oedd unrhyw gynnig i ddarparu tai gofal ychwanegol o fewn y prosiect, fodd bynnag byddai modd ystyried darpariaeth ar safle West Parade.

- Mewn perthynas â'r trefniadau llywodraethu i Fwrdd Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl. Ar hyn o bryd, mae Arweinydd y Cyngor yn cynrychioli Sir Ddinbych ar y Bwrdd fel yr Aelod Arweiniol dros Adfywio ac fel Arweinydd y Cyngor. Trafododd y Cabinet y trefniadau aelodaeth a chytunodd i argymell penodi'r Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a'r Gymuned i gynrychioli Sir Ddinbych yn ogystal â'r arweinydd.

Amlinellodd y Prif Weithredwr bwysigrwydd y Prosiect a fyddai â'r potensial i drawsffurfio'r ardal a chael effaith arwyddocaol ar nifer fawr o drigolion yr ardal. Esboniodd bod cynnig gan Sir Ddinbych i reoli'r prosiect, a oedd ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru, wedi cael ei wrthod. Esboniodd hefyd bod Sir Ddinbych yn isbartneriaid ond er hynny'n bartneriaid pwysig; ac er mai golwg unochrog o'r trafodion fyddai gan Sir Ddinbych, y byddai'n bwysig nodi amodau rheoli'r prosiect. Cyfeiriodd y Prif Weinyddwr hefyd at Floc 1, y Parc Trefol, a oedd yn ymwneud â thrawsffurfio'r ardal yn ardal werdd. Mynegodd bryder y gallai'r gwaith cynnal ôl-brosiect fod â goblygiadau cost mewn perthynas â chynnal a chadw'r gofod gwyrdd, a bod angen trafod y mater hwn gyda'r datblygwyr gan y byddai opsiynau a chyfrifoldebau posibl yn elfen allweddol yn y broses dylunio a chynllunio.

***PENDERFYNWYD****:- bod y Cabinet:-*

*(a) yn argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r prosiect.*
*(b) yn cymeradwyo cyfraniad Sir Ddinbych ar y Bwrdd o safbwynt aelodaeth, ac yn cadarnhau'r Cylch Gorchwyl fel yn Atodiad 5, ac yn*
(c) *argymell penodiad yr Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a'r Gymuned i Fwrdd Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl.*

## 9 NEWIDIADAU I'R RHAGLEN CEFNOGI POBL

Cyflwynodd y Cynghorydd Feeley yr adroddiad a oedd yn amlinellu datblygiadau diweddar yn y trefniadau arfaethedig i'r Rhaglen Cefnogi Pobl (SPP) ac yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gynrychiolaeth yr Aelod Arweiniol ar y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.

Darparwyd crynodeb o'r newidiadau allweddol i weinyddiad yr SPP a oedd yn digwydd ledled Cymru. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys symud tuag at fformiwla ddosbarthu arian newydd a throsglwyddo cyfrifoldebau contractio rhai gwasanaethau o Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol. Roedd trefniadau llywodraethu newydd, gan gynnwys Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol (RCC) gyda chyfrifoldebau allweddol am yr SPP, yn cael eu sefydlu ledled Cymru ar hyn o bryd.

Esboniwyd bod yr SPP yn rhaglen arwyddocaol a oedd yn darparu gwasanaethau cymorth “cysylltiedig â thai” i ystod eang o grwpiau sy’n agored i niwed. Nod y rhaglen oedd eu galluogi i fanteisio ar sicrwydd tŷ wrth ddatblygu agweddau eraill o’u bywydau gan hyrwyddo annibyniaeth. Roedd y Rhaglen wedi’i gwerthuso ar lefel cenedlaethol gan ddangos ei bod yn arwain at fuddion ariannol ac anariannol cadarnhaol iawn. Yn 2011/12, derbyniodd Sir Ddinbych £6.9m o arian trwy’r SPP a oedd yn ddigon i ariannu oddeutu 2404 uned cefnogaeth, sef y mwyaf posibl, gan gynnwys gwasanaethau warden i henoed, ar unrhyw adeg, ar draws ystod o anghenion ac ymyriadau.

Roedd argymhellion allweddol adolygiad annibynnol y SPP, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru (LlC), wedi’u cynnwys yn yr adroddiad, ynghyd â chrynodeb o’r goblygiadau mwyaf nodedig i Sir Ddinbych, a oedd yn cynnwys materion ariannu. Pwysleisiodd yr Arweinydd a’r Cynghorydd Feeley y byddai gan y Pwyllgor Craffu rhan bwysig i’w chwarae o ran monitro ac arolygu’r rhaglen wrth iddi ddatblygu, a chytunwyd y dylid cynnwys hyn yn Rhaglen Waith y Pwyllgor Craffu perthnasol. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles at bryderon Sir Ddinbych ynghylch datblygiad y rhaglen, yn enwedig y cydbwysedd pŵer ar lefel rhanbarthol ac Awdurdod unigol mewn perthynas â’r broses gwneud penderfyniadau. Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Arweinydd, mynegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bryder ynghylch cyfansoddiad y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol a’r posibilrwydd o wrthdaro rhwng y darparwyr gwasanaeth a’r cyrff sy’n comisiynu gwasanaethau.

Hysbyswyd aelodau bod y newidiadau arfaethedig wedi bod yn ddadleuol mewn rhai ffyrdd. Fodd bynnag, yn dilyn ymgynghoriad a thrafodaethau, roedd LlC wedi newid rhywfaint ar y canllawiau, yn enwedig ynghylch rôl y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol. Roedd Cymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru wedi dangos eu bod yn cefnogi’r trefniadau newydd ac roedd LlC wedi cytuno i arolygu’r trefniadau a amlinellwyd yn y canllawiau o fewn y flwyddyn bontio. Roedd pob rhanbarth wedi cael cais i arddangos eu “parodrwydd” i sefydlu Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol erbyn 1 Awst 2012 ac roedd Gogledd Cymru wedi bodloni’r meini prawf a osodwyd gan LlC. Roedd Sir Ddinbych wedi derbyn amodau a thelerau’r grant newydd a’r canllawiau newydd. Fodd bynnag, roedd rhai pryderon yn dal i fod, ac roeddynt wedi’u cofnodi’n ffurfiol gyda LlC.

Roedd manylion yn ymwneud â’r strwythur gweithredol newydd wedi’u cynnwys yn Atodiad 1. Roedd hyn yn cynnwys y rôl arfaethedig i’r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a’r Awdurdod Lleol a oedd yn Cydlynu, ac roedd hefyd yn amlinellu sut y rhagwelwyd y byddai rôl yr Awdurdod Lleol unigol yn ffitio gyda’r strwythur rhanbarthol. Mae’r argymhellion a nodwyd ym mharagraffau 3.1 a 3.2 o’r adroddiad yn adlewyrchu’r farn y dylai Sir Ddinbych gyfranogi yn y trefniadau newydd, er gwaetha’r risgiau. Fodd bynnag, esboniwyd y byddai angen i'r Pwyllgor Craffu gadw golwg agos ar effaith y risgiau cysylltiedig â’r trefniadau newydd dros y 12 mis nesaf wrth i’r newidiadau mawr gael eu cyflwyno.

Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd J.R. Bartley ynghylch gostyngiad yn narpariaeth y gyllideb yn effeithio ar lefelau cynnal gwasanaethau, y goblygiadau posibl i Sir Ddinbych a’r posibilrwydd o sicrhau Wardeniaid newydd i

olynu Wardeniaid a fyddai'n ymddeol neu'n gadael eu swyddi. Esboniwyd na fyddai'r SPP yn effeithio ar y Gwasanaeth Warden a fyddai'n destun adolygiad ei hun.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD****:- bod y Cabinet:-*

*(a) yn enwebu'r Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant i fod yn gynrychiolydd aelodau etholedig Cyngor Sir Ddinbych ar Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cefnogi Pobl Gogledd Cymru, gyda'r Cyfarwyddwr Moderneiddio a Lles yn swyddog dirprwyedig yn ei habsenoldeb, ac yn*
*(b) atgyfeirio effaith y trefniadau Cefnogi Pobl newydd ar ddarparu ac ariannu gwasanaethau Cefnogi Pobl yn Sir Ddinbych, ar gyfer ystyriaeth fanwl a thrylwyr fel rhan o Raglenni Gwaith Craffu.*

## 10 BLAEN-RAGLEN WAITH Y CABINET

Cyflwynodd y Cynghorydd H.H. Evans Flaen-Raglen Waith y Cabinet.

Cytunodd Aelodau y dylid ad-drefnu'r Eitemau Busnes canlynol fel y ganlyn:-

- Penodi Cynghorwyr i Gyrff Allanol o gyfarfod Medi i gyfarfod Hydref.

- Adolygiad o Ddarpariaeth Addysg Seiliedig ar Ffydd ac Adolygiad Ysgolion Rhuthun o gyfarfod Medi i gyfarfod Hydref neu Dachwedd, yn amodol ar dderbyn arweiniad gan Lywodraeth Cymru ar fethodoleg ariannu.

***PENDERFYNWYD -*** *yn amodol ar yr uchod, bod y Cabinet yn derbyn y Blaen-raglen Waith.*

## RHAN II

## GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *- yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd rhag mynychu'r cyfarfod i'r eitemau busnes canlynol ar y sail eu bod yn ymdrin â'r posibilrwydd o ddatgelu gwybodaeth a eithriwyd fel y diffinnir ym mharagraffau 13 a 14 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

## 11 PROSIECT GWELLA TAI GORLLEWIN Y RHYL - GORCHYMYN PRYNU GORFODOL

Cyflwynodd y Cynghorydd H.H. Evans yr adroddiad a oedd yn manylu ar y defnydd o weithdrefnau Prynu Gorfodol i gaffael eiddo yng Ngorllewin y Rhyl, er mwyn

gweithredu Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl, a oedd wedi'i ystyried dan eitem rhif 8 ar yr Agenda.

Gofynnwyd i'r Aelodau astudio'r cynllun a oedd wedi'i gynnwys fel Atodiad 1. Esboniodd y swyddogion bod y Cynllun wedi'i newid fel a ganlyn:-

- Bloc 2 i gynnwys Stryd Gronant yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol i ganiatáu gwaith alinio.

- Bloc 7 i gynnwys adeilad pellach, sef tŷ allanol ar ochr ddwyreiniol Abbey Street ger Crescent Road.

Dosbarthwyd copi o'r cynllun diwygiedig i Aelodau yn y cyfarfod.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu cefndir Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl (WRHIP). Nod y Prosiect yw lleihau nifer y tai amlfeddiannaeth yn ardal Gorllewin y Rhyl, gwella ansawdd y tai a'r amgylchedd cyffredinol, a darparu gofod agored newydd. Yn Nhachwedd 2011, penderfynodd y Cabinet fabwysiadu cynllun gwaith Y Rhyl yn Symud Ymlaen fel strategaeth adfywio ar gyfer Y Rhyl. Roedd Achos Cyfiawnhau Busnes Cam 1 WRHIP wedi'i gadarnhau gan Weinidog dros Gyllid Llywodraeth Cymru (LlC) ac arian ar gyfer y prosiect o Gronfa Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog LlC.

Roedd Cynllun Busnes WRHIP wedi'i gymeradwyo gan LlC ym Mai 2012, ac roedd cyfarfod cyntaf Bwrdd WRHIP, sef partneriaeth strategol y prosiect, wedi'i drefnu yng Ngorffennaf 2012.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried adroddiad WRHIP, ac yn unol â Rheoliadau Ariannol a Methodoleg Rheoli Prosiect Sir Ddinbych, byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ym Medi 2012 i gymeradwyo'r prosiect a dirprwyo pwerau i'r Bwrdd Prosiect.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu amcanion y Prosiect, i wella amwynder yr ardal a chreu cymuned fwy cytbwys gyda chyfran o berchen-feddiannaeth. Roedd manylion o'r eiddo oedd wedi'u cynnwys yn y prosiect wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Esboniwyd y byddai Gorchmynion Prynu Gorfodol yn berthnasol i unrhyw adeiladau gweddilliol nad oedd dan berchnogaeth gyhoeddus i'r prosiect. Fodd bynnag, hyd yn oed pe byddai'r Cyngor yn cyflwyno Gorchmynion Prynu Gorfodol, byddai hefyd yn ceisio prynu adeiladau trwy gytundeb. Byddai gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau'r awdurdod i ganiatáu mân newidiadau i'r Gorchmynion ac i dynnu eiddo oddi ar unrhyw rai o'r Gorchmynion yn ôl cyfarwyddyd y Bwrdd Prosiect. Roedd canlyniad y Prosiect i bob bloc wedi'i nodi'n fanwl yn Atodiad 3 i'r adroddiad. Cyfeiriodd swyddogion at y pŵer i wneud y penderfyniad ac roedd manylion wedi'u cynnwys a'u crynhoi yn yr adroddiad.

Mynegodd y Cynghorydd C. Hughes bryder ynghylch y gostyngiad posibl yn nifer yr unedau un llofft fyddai ar gael ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau, a pha mor fforddiadwy oedd yr adeiladau newydd i bobl sy'n byw yn yr ardal ar hyn o bryd. Cadarnhaodd Rheolwr Rhaglen Y Rhyl yn Symud Ymlaen mai un o'r amcanion allweddol oedd lleihau nifer yr unedau un llofft yn yr ardal oherwydd bod gormod o

unedau o’r fath ar gael yn yr ardal ar hyn o bryd, a bod hynny’n gysylltiedig â rhai o’r problemau amddifadedd economaidd a chymdeithasol a brofwyd yno. Esboniodd nad oedd bwriad i gael gwared ag unedau un llofft yn llwyr, a chadarnhaodd y byddai nifer sylweddol o unedau o’r fath ar gael yn ardal ehangach Gorllewin y Rhyl; roedd yn teimlo y byddai hynny’n darparu gwell cydbwysedd o ran y tai oedd ar gael yn yr ardal.

Roedd Aelodau’n cefnogi’r safbwynt a fynegwyd gan y Cynghorydd E.W. Williams y byddai’n bwysig ei gwneud yn glir fod Sir Ddinbych yn gweithredu’r Gorchmynion Prynu Gorfodol ar ran Llywodraeth Cymru, am nad oedd Llywodraeth Cymru yn gallu gwneud hynny ei hunan.

***PENDERFYNWYD –*** *bod y Cabinet:-*

*(a) yn cymeradwyo’r defnydd o weithdrefnau Prynu Gorfodol  i gaffael eiddo er mwyn gweithredu Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl.*
*(b) bod Gorchmynion Prynu Gorfodol yn cael eu cyflwyno mewn perthynas â Blociau 1 i 7 yn unol ag adran  226(1)(a) o Ddeddf Cynllunio Tref a Sir 1990 i gaffael yr adeiladau hynny nad ydynt ar hyn o bryd ym mherchnogaeth gyhoeddus, ac*
*(c) yn cadarnhau'r newidiadau i Gynllun Prosiect Gwella Gorllewin y Rhyl, Atodiad 1, fel y cytunwyd.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.15 a.m.